

## Llên y Llysieuwyr

Parhad o dudalen 11)

Ar lethrau'r Garnedd Goch, uwchlaw Llyn Cwm Dulyn, mae ffynnon a elwir yn Ffynnon Doctor Dafydd Jones y Mynydd neu Ffynnon Dŵr Oer. Yn ôl yr hanes arferai'r hen ddoctor fynd â chleifion at y ffynnon a'u cynghori i yfed y dŵr ohoni neu i drochi er gwella o gryd y cymalau. Cyhoeddodd Robert Ellis y Clochudd yr englyn canlynol yn ei gyfrol *Lloffion Awen Llyfnwy* er cof am feddygon Mynydd Llanllyfni:

Er meddu ar y moddion - a wellâent  
Eraill o gleydyon;  
Angau trwch i'r llwch-gell hon,  
Yma ddyg y Meddygon.

### Dyled 'Davies y dail'

Fel yna yr adnabyddid Hugh Davies (1739-1821), yn lleol er ei fod yn cael ei alw yn 'the *Welsh Linnaeus*' gan fotanegwyr o Loegr. Bu'n Reithor yn Llandegfan cyn symud i Aber, ger Bangor lle bu'n gwasanaethu am 29 mlynedd a threuliodd ei flynyddoedd olaf ym Miwmares. Cydoesai gyda D. T. Jones a chyhoeddodd ei lyfr poblogaidd *Welsh Botany* yn 1813. Mae'r gyfrol hon yn bwysig am ei bod yn pontio'r gagendor rhwng y llysiuylfr traddodiadol fel un D. T. Jones a'r fflora wyddonol ddiweddarach. Yn yr hanner cyntaf ceir catalog o blanhigion gwyllt ynys Môn, gan nodi safleoedd y rhai arbennig, ac mae'n hawlio ei le fel y fflora cyntaf i gael ei gyhoeddi ar unrhyw sir yng Nghymru. Mae'r ail hanner wedi ei lunio ar ffurf llysiuylfr meddyginiaethol gyda rhestrau o enwau Cymraeg planhigion a'r awdur yn talu teyrnged i William Morris o Fôn am ei waith yn llunio llawysgrif o'r teitl *A Collection of Plants gathered in Anglesey*. Mae'r llawysgrif bellach ar goll ond lleisiodd William Morris ei awydd i lunio llysiuylfr mewn llythyr at ei frawd Richard yn 1751:

'Pe bai'r gallu mal yr ewyllus, rhodddwn allan llysiuylfr iawn, nid enwau llysiu yn unig, ond hefyd eu rhinwedd, a'u hamser a'u cartref,

etc., etc., bynnag par fodd, nid mynych mae wythnos yn mynd dros fy mhen na bwysf yn casglu at eu gilydd ryw faterion, a hynny er' 10 neu 12 o flynyddoedd tuag at y perwyl hwnw. Nid hwyrach mai gadael heb eu gorphen y byddis i ryw genedl goeg sychu eu ... a hwynt.'

Nid sôn y mae William Morris yma am llysiuylfr sy'n cofnodi rhinweddau meddyginiaethol yn unig, ond am lunio llyfr sydd hefyd yn disgrifio'u 'cartref', sef eu cynefin, yn yr un modd ac y gwneir yn y *Welsh Botany*. Awgrymaf mai ar batrwm llawysgrif William Morris, neu o gopi ohoni, y lluniodd Hugh Davies ei gyfrol.

Credai rhai i lawysgrif William Morris ddod yn eiddo i'w ferch a drigai ym Miwmares yr un adeg â Hugh Davies ond mae tystiolaeth pellach yn awgrymu i'r llawysgrif, neu efallai gopi ohoni, ddod i feddiant apothecari o Gaernarfon o'r enw William Williams, a adwaenid yn lleol fel 'Williams y Potiau', casglwr llawysgrifau brwd. Roedd Robin Ddu yr ail o Fôn (Robert Hughes, 1744-85) yntau yn byw yng Nghaernarfon ar y pryd a dywedodd ef bod Iolo Morganwg wedi benthycu rhai o llawysgrifau William Williams tra ar ymweliad â Chaernarfon, ond heb eu dychwelyd. Ceir cadarnhad o hyn mewn llythyr gan Iolo at Owain Myfyr (Owen Jones, 1741-1814) yn 1784:

'Yr oedd amryw o beihau da gantho, un a ba rai ydoedd Llysiuylfr Cymraeg a saesoneg gan Wm. Morris brawd yr hên Lywydd, ag yn rhagori'n ddifffur ar yr un o eiddo'r Dr. Dafis, amryw lyfrau Barddoniaeth a welais hefyd gantho.'

Cyn gorffen trafod llawysgrif golledig William Morris dylir nodi ffaith bwysig arall. Lucy, merch Thomas Knight, y meddyg o Gaernarfon, oedd gwraig William Williams a Mary, chwaer Thomas Knight, oedd mam Hugh Davies. Teg felly yw tybio bod y Rheithor, drwy ei gysylltiadau teuluol, yn cael rhwydd hynt i bori a chopio o gasgliad William Williams pryd y mynnai, ac efallai iddo etifeddu'r llawysgrif y soniai Iolo amdani yn dilyn marwolaeth yr apothecari yn 1789.

ysgrifau llawn athrylith gan R. I. Aaron, David Philips, y Bala a J. R. Jones, arwr fy ieuentid. Creodd ef, fel Stephen J. Williams, rador o eiriau yn 1938 i gyfoethogi ein hiaith, fel 'echblyg', 'allweliad' ac 'ocsigen' a 'ffosfforws'.

Onid yr hyn sydd yn fy nharo i am y cyhoeddiadau yn 1938 yw hyn, cymaint mwy o ddramâu yn y Gymraeg a gyhoeddwyd yr adeg honno. Y mae hi'n echrudus heddiw. Ond yn 1938 cyhoeddwyd toreth o ddramâu, a hynny yn bennaf oherwydd un wasg, sef Gwasg y Brython, Stanley Road, Bootle. Dyma gyfran o'r dramâu a gyhoeddwyd gan Wasg y Brython yn 1938: dwy ddrama o eiddo Awena Rhun; trosiad o waith bardd Cadeiriol y flwyddyn honno, Gwilym R. Jones; drama o eiddo Eiddwen James (a gofiat yn dda yn Brifathrawes Ysgol Gynradd yn Ngheredigion); y *Grisiau Aur*, comedi Gymraeg gan D. Derwenydd Morgan, a drama Wil Ifan, *Helbulon Llenor* am swllt, sef comedi fer yn iaith y gweithiau. Prin y cyfeirir at *Helbulon Llenor* wrth gloriannu y bardd swynol, y Parchedig William Evans (Wil Ifan). Ond heb amheuaeth y ddrama fwyaf uchelgeisiol a gyhoeddwyd y flwyddyn honno oedd drama J. Kitchener Davies, *Susanna*, o Wasg Gee. Drama un-act am bris swllt. Prin yw'r cyhoeddiad hwn heddiw hefyd ac anaml y

## WELSH BOTANOLGY;

PART THE FIRST.

### SYSTEMATIC CATALOGUE

OF THE

NATIVE PLANTS

OF THE

## ISLE OF ANGLESEY,

IN

LATIN, ENGLISH, AND WELSH;

WITH THE HABITATS OF THE RARER SPECIES,  
AND A FEW OBSERVATIONS.

TO WHICH IS ADDED,

### AN APPENDIX,

CONSISTING OF

THOSE GENERA, IN THE THREE FIRST VOLUMES OF FLORA BRITANNICA,  
WHICH ARE NOT OF SPONTANEOUS GROWTH IN ANGLESEY,  
RENDERED LIKEWISE INTO WELSH.

BY HUGH DAVIES, F.L.S.

Nominis et auctoris, prout et cognitio rerum.  
PAL. Ed.

LONDON:

PRINTED, FOR THE AUTHOR,  
BY W. MARCHANT, INGRAM-COURT, FENCHURCH-STREET; AND SOLD BY  
E. WILLIAMS, NO. 11, STRAND; AND T. POOLE, CHESTER.

1813.

Mae llenyddiaeth y llysiuylfr yn hen iawn a gallwn yn hawdd grybwyll gwaith cyffelyb o law Thomas Wiliems o Drefriw a William Salesbury. Gwnaeth David Thomas Jones a Hugh Davies gymwynas yn cyhoeddi eu cyfrolau. Y cyntaf yn cyfieithu gwaith poblogaidd Culpeper ar gyfer y werin Gymraeg, a'r ail yn diogelu peth o waith colledig William Morris a'i loywi drwy ychwanegu ei lafur ei hun iddo.

### Ffynonellau

G. Penrhyn Jones, 'Some aspects of the medical history of Caernarvonshire'

Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon 23 (1962) tt67-91.

J. H. Davies, *The Letters of Lewis, Richard, William and John Morris of Anglesey*, cyf. 1, tt 187-8.

Janet D. Roberts, *O Ben Llŷn i Lle Bu Llew* (Cyngor Gwlad Gwynedd, 1985).

deur o hyd i gopi Cymraeg.

Yr oedd pobl y byd llyfrau yn raddol ennill peth sylw yr awdurdodau gwladol a da gweld fod dau o blith Cymry Glannau Mersi wedi cael eu cydnabod trwy Bensiwn a elwid '*Civil List Pensions*'. Y cyntaf i'w enwi oedd John Glyn Davies a fu yn Adran Gelteg Prifysgol Lerpwl o 1908 hyd 1936, ac a roddodd lawenydd i genedlaethau o blant trwy *Cerddi Porthdinlaen*. Yr ail, golygydd cyntaf Y Brython, J. H. Jones (Je Aitsh fel y'i gelwid) fel cydnabyddiaeth am ei wasanaeth amhrisiadwy i lenyddiaeth Cymraeg. Diolch amdanynt i gyd a phawb sydd heddiw yn cyflawni yr un campau a'u cyfraniadau yn estyn einioes ein hiaith gyfoethog, chwech deg pump o flynyddoedd yn ddiweddarach. Cytnaf â'r hyn a ddywedodd Prosser Rhys yn 1938. Dyma a lefarodd ef ar enedigaeth Urdd y Cyhoeddwyd,

Y byddai llewyrch ar y farchnad mewn llyfrau Cymraeg pe ceid trwy Gymru ddeg ar hugain o lyfrwerthwyr a allai wvertu hanner cant o gopiau yr un o bob llyfr Cymraeg a gyhoedder.

Gwir ei air. Byddai'n chwyldro pe sicrheid gwerthiant o 1,500 o gopiau o bob llyfr a gyhoeddwyd bob wythnos. Ond ni ddylai fod yn amhosibl. Tybed?

## Trobwynt yn hanes cyhoeddi llyfrau Cymraeg

(Parhad o dudalen 9)

12. E. Morgan Humphreys: *Dirgelwch Gallt y Ffrwd*, Hughes a'i Fab. Pris 3/6. Cofiaf ddarllen y stori benigamp hon yn 1948 cyn mynd i Ysgol Sir Tregaron.
13. Rhys Hopkin Morris: *Cymru'n Galw. Detholiad o Sgyrsiau Radio Cymraeg 1936-37*. Gwasg Aberystwyth. Pris 2/6. Prin. Ni welais hyd yn hyn y gyfrol hon ar werth yn y *Casglwr*. Gwerth ei chael, am atgofion y ddau weinidog Wesle, D. Tecwyn Evans (prynwch gofiant Tudur Davies iddo a ddaeth allan yn ddiweddar) ar Owen M. Edwards ac E. Tegla Davies ar Daniel Owen, ac ysgrif hynod iawn T. Gwynn Jones (athrylith arall) ar *Hen Blasau Dyffryn Clwyd*.

Yr oedd 1938 yn flwyddyn lle yr oedd y cylchgronau Cymraeg yn dawnsio ar y ffurfafen lenyddol, *Y Tir, Heddiw* ac ati. A dyma flwyddyn geni *Efrydiau Athromyddol*, cylchgrawn o safon uchel ar hyd y blynyddoedd ac Urdd y Graddedigion Prifysgol Cymru yn falch ohono. Yn y rhifyn cyntaf a welodd olau dydd cafwyd